



NAHT Cymru  
9 Rhodfa Columbus  
Maes Brigantine  
Caerdydd  
CF10 4BY

Dydd Mawrth 24 Mawrth 2020

Cyf: Achos Covid-19 - ymateb ysgolion i'r pandemig

Annwyl Weinidog,

Ers eich cyhoeddiad ddydd Mercher i gau ysgolion ar gyfer addysg statudol, mae NAHT Cymru wedi gweithio gyda chi a'ch swyddogion i sicrhau bod arweinwyr ein hysgolion yn ymateb i'ch galwad i ail-bwrpasu ysgolion.

Rydych chi wedi parhau i ganmol eu harweinyddiaeth a'u gweithredoedd yn gyhoeddus wrth gefnogi plant gweithwyr allweddol yn ystod yr amser hwn o argyfwng cenedlaethol, ac rydym yn ddiolchgar am eich cefnogaeth barhaus.

Mae gan arweinwyr ysgolion yng Nghymru rai cwestiynau difrifol iawn o hyd heb eu hateb, ac fe'ch anogaf i ddarparu arweiniad ar y canlynol:

- Cymarebau staff / disgyblion ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd
- Niferoedd diogel o ran disgyblion, h.y. faint o blant sy'n gallu mynychu pob darpariaeth heb fynd yn groes i ganllawiau pellhau cymdeithasol
- Trefniadau ar gyfer staff nad yw'n ofynnol iddynt fynychu'r gwaith - a yw'n ofynnol i staff sydd â phlant o dan bump oed / plant bregus fynychu? a.y.b.
- Cyhoeddi llythyrau cadarnhau i staff sy'n cyflawni rolau gweithwyr allweddol er mwyn osgoi unrhyw ddryswch
- Blaenoriaethu ysgolion o ran cyflenwadau, e.e. cynhyrchion glanhau, gel dwylo
- Y drefn ar gyfer cyfarpar amddiffyniad personol (PPE) a hylendid i geisio lleihau lledaeniad yr haint, h.y. protocol ar gyfer mynd i mewn ac allan o'r ysgol, dillad i'w gwisgo a.y.b.
- Trefniadau ar gyfer staff sy'n arfer gweithio yn ystod y tymor yn unig, os gofynnir iddynt weithio ar benwythnosau a gwyliau ysgol
- Disgwyliadau o ran dysgu parhaus - sut i reoli staff sy'n darparu gwaith ar gyfer dysgu gartref ac yn gweithio mewn ysgol sydd wedi'i hailbwrpasu
- Disgwyliadau o ran oriau agor, h.y. mae rhai ALLau yn gofyn i wirfoddolwyr weithio ar benwythnosau; manylion ar sut y bydd hynny'n cael ei reoli o ran cyfrifoldebau a chyflog
- Asiantaethau cyflenwi sy'n torri'n ôl ar gytundebau ar gyfer athrawon a staff cymorth
- Sut fydd ALLau yn cofnodi hunan-ynysu yn erbyn cofnodion salwch

- Ysgolion arbennig - ydyn nhw'n mynd i aros ar agor? Mae Gogledd Iwerddon wedi cau pob ysgol arbennig yr wythnos hon er mwyn asesu risg y sefyllfa.

Mae arweinwyr ysgolion wedi ateb eich galwad i weithredu yn ystod y cyfnod ansicr hwn, maent wedi gweithio'n ddiflino i drefnu darpariaeth gofal plant ar gyfer eu cymunedau, a hynny heb fawr o rybudd.

Mae'r cyhoeddiad neithiwr o fesurau llymach i helpu atal y firws rhag lledaenu wedi ychwanegu at bryder ein haelodau, gan ei gwneud yn bwysicach nag erioed eu bod yn cael rhywfaint o arweiniad ar sut i weithredu'n ddiogel ac yn gyfrifol yn ystod yr amgylchiadau heriol hyn.

Yn gywir

Laura Doel  
Cyfarwyddwr  
NAHT Cymru